

At y Golygydd

51 Lower King's Road,
Berkamsted,
Herts,
HP4 2AA

Annwyl Olygydd,

Llannerchymedd yn Llundain

Mae pawb ohonom yn gyfarwydd â chysylltiadau fil rhwng Cymru a Llundain, llawer ohonynt wedi eu sefydlu dros flynyddoedd lawer. Ond 'nawr ac yn y man ma' 'na gysylltiad newydd yn dod i'r glowg, a meddyliais ei fod yn werth nodi un na chafodd sylw – hyd y gwn ni – yn hanes Cymry'r brifddinas. Gellir honni ei fod yn rhy ddbwys i hawlio sylw, ond credaf y byddai'n biti pe bai'n mynd yn angof llwyr.

Deuthum ar hyd iddo mewn llyfr a gyhoeddwyd yn Llundain ym 1840, sef:

1812, yn St. Mary Ave, y pen arall i'r hen ddinas, ond fe orfu iddynt ei werthu i'r Saeson ym 1830, a rhentu'r capel yma yn Aldergate. Dychwelodd y gynulleidfa yn ôl i St. Mary Ave ym 1839, ac mae'n debyg fod Tallis wedi nodi lleoliad y capel y flwyddyn cyn iddo gyhoeddi'r atlas. Beth bynnag, am hynny, dyma un o'r saith capel Cymreig yn y ddinas ym 1939/40.

Nawr, os trowch y map wyneb i waered ma' 'na ryw beth diddorol arall. Mwy neu lai yn gyferbyn, ar yr ochr arall i Aldergate, fe welwn siop 'Straker', Tobacconist. Ac uwch ben hwn mae'r hysbyseb: 'Agent for the Lanerchymedd Snuff' Snisin! 'Llwch man Llan'achmedd'. Dyma gysylltiad unigryw rhwng dau begwn byd y Cymro, sef ar yr un llaw ei bresenoldeb yn y ddinas, ac ar y llaw arall, pentref bach ym

Argoed,
43 Snowdon Drive,
Fforestfach,
Abertawe
SA5 5BD.

Annwyl Olygydd,

Llyfrwerthwyr Teithiol

Cefais flas mawr ar drafodaethau Steffan ap Owain ar Hen Lyfrwerthwyr 'Stiniog yn rhifyn Gaeaf 2004 a Gwanwyn 2005. Dywed ar ddiwedd ei erthygl gyntaf y byddai ysgrif ar hanes llyfrwerthwyr teithiol Cymru o gryn ddiddordeb i lawer ohonom. Gwir yw hynny.

Yr oedd fy nhaid, R. D. Morris, Coedpoeth yn crwydro siroedd Gogledd Cymru o'r dau ddegau i bedwar degau'r ganrif ddiwethaf yn gwerthu llyfrau Cymraeg Gwasg Hughes a'i Fab, Wrecsam a Gwasg y Brython, Lerpwl. Dau o atgofion annileadwy fy mhlentynod yw mynd gydag ef ar y trên i Lerpwl i gasglu llyfrau'r Brython o'u siop yn Hackins Hey, a chadw cwmni iddo yn ei Baby Austin ar daith gwerthu yn Sir Feirionnydd a chael picnic ar lan Llyn Tegid Y Bala.

Pan fu farw fy nhaid yn Awst 1948, uwchben paragraff amdano yn y Liverpool Daily Post yr oedd y pennawd Last of the Peripatetic Booksellers. Lluniais ysgrif amdano a gyhoeddwyd yn Porfeydd Gorff/Awst 1978 dan y teitl Y Llyfrwerthwr Teithiol Olaf.

O bryd i'w gilydd daeth cyfle i sôn amdano mewn pwt o ddarlith yn dwyn yr un enw.

Y mae'n debygol iawn iddo werthu llyfrau yn 'Stiniog, gan iddo gael gafael ar ei ail wraig yno!

Ond nid cyfrolau pobl eraill yn unig a gludai Taid Morris i'w gwerthu. Yr oedd yn awdur sawl nofel a drama, gan ddechrau gyda'i nofel gyntaf Derwyn neu Pob Pant a Gyfodir a gyhoeddwyd ym 1924 ac a welodd ail argraffiad. Y mae'r nofel hon yn cael sylw gwerthfawrogol gan Robin Chapman newn cyfrol o'i eiddo a gyhoeddodd yn ddiweddar.

Hyd yma, methais yn fy ymdrech i gael rhagor o wybodaeth am ymgyrch gwerthu

Gwasg Hughes a'i Fab yr oedd fy nhaid yn rhan ohono, ac a oedd ymgyrch debyg gan Wasg y Brython? Os oes rhai o ddarllenwyr Y Casglwr all fy ngoleuo, byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr dderbyn gair ganddynt.

Diolch drachefn am ysgrif ddiddorol Steffan ap Owain.

Yn gywir,

Derwyn Morris Jones



Prif Strydoedd Llundain (1840)

John Tallis. London Street Views (London Topographical Society, 15, Nattali and Morris). Yn yr 'atlas' yma mae Tallis wedi darlunio prif strydoedd y ddinas gan ddangos pob adeilad yn fanwl ac i raddfa gywir, yn cynnwys enwau'r siopau a beth oedd ar werth. Mae'r cyfan yn groncl cywir o'r amgylchedd fel 'roedd ar ddechrau oes Victoria; yn wir, wrth droi'r tudalennau mae'n hawdd dychmygu eich bod yn cerdded y strydoedd yn union fel 'roeddynt yn 1840.

Ynghanol y cyfoeth hyn o ffeithiau diddorol am y ddinas cefais un, a dim ond un, arwydd fod na Gymry yn cerdded y strydoedd hyn. Ynghanol y ddinas, yn Aldersgate, ychydig iawn i'r gogledd o Sant Paul, fe welais adeilad eithaf cyfarwydd, ac uwch ei ben y geiriau 'Welsh Chapel'.

Capel y Methodistiaid oedd hwn. Fe adeiladwyd capel gan y Wesleiaid yn

mherfedd y wlad yn Sir Fôn. Mae pawb yn gwybod, wrth gwrs, fod y cysylltiad wedi ei selio ganrif yn gynt gan Dr. William Jones a'r Morrisiaid – ond y snuff a gafodd y cyhoedduswyd!

Cynhyrchwyd y snuff yn Llannerchymedd gan Huw Hughes, rhwng 1835 a 1865 – cangen efallai o ddiwydiant 'baco Amlwch'. 'Roedd snuff-un o hanfodion yr oes – yn werthfawr o ran maint, ac yn hawdd dros ben i'w gludo, peth handi iawn i borthmon ei gario yn ei boced. A phen i lawer portmon oedd Smithfield, dim ond poeriad (baco) o'r siop yn Aldergate. Fe fyddai digon o gwsmeriaid o fewn cyrraedd, a phwy a wyr y byddai hyd yn oed y Wesleiaid addolgar yn cael eu denu gan yr hysbysiad a'r syniad pleserus o gael tisian yn Gymraeg.

Emrys Jones